# Bwletin y Farchnad HCC

Rhagfyr 2022

**“Fe wnaeth tywydd gwell yr hydref hwn greu toreth o laswellt ac efallai ei fod wedi helpu i leihau rhywfaint o'r pwysau chwyddiannol ar gynhyrchwyr cig eidion, fodd bynnag, mae'r heriau i'r diwydiant yn parhau - gyda galw newidiol gan ddefnyddwyr ar flaen y gad. Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y sector cig eidion.**

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes”**



*Mae prisiau pwysau marw cyfartalog gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn gryf drwy gydol 2022, gyda phrisiau pwysau marw bustych yn cofnodi prisiau uwch na'r marc £4/cilo ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mewn gwirionedd, fe wnaeth prisiau pwysau marw bustych gyrraedd uchafbwynt o 442.5c/kg yn ystod canol yr haf, a oedd bron 50c yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt. Mae'n ymddangos y bydd prisiau pwysau marw gwartheg dethol yn cau'r flwyddyn yn uwch gan fod cyfartaleddau mwy diweddar wedi bod yn tueddu yn agos at y lefel hon, ac maen nhw dros 30c yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt. Ar y llaw arall, mae cyfartaledd gwartheg difa yn parhau i ostwng – ond mae'r prisiau'n parhau i fod yn sylweddol uwch na lefelau 2021 a'r cyfartaledd 5 mlynedd.*

## CYFLENWAD

Roedd **trwybwn** y gwartheg yn ystod y cyfnod Ionawr i Hydref mewn lladd-dai yn y DU 2% yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt, sef 2.2 miliwn y pen (*ffynhonnell: Defra*). Pwysau carcasau ysgafnach - mae'n debygol y bydd llai o dwf glaswellt yn ystod misoedd yr haf yn cael effaith ganlyniadol, a chynhyrchwyr yn peidio â dal gafael ar anifeiliaid wrth i'r gost cynhyrchu gynyddu - dim ond 1% yn uwch ar y flwyddyn yw cynhyrchiant cig eidion a chig llo am y cyfnod. O'i gymharu â 2021; Bustych yw'r unig gategori i gofnodi gostyngiad o 1% blwyddyn ar flwyddyn mewn trwybwn, tra bod heffrod a buchod llawn-dwf yn dal i fod yn uwch ar 2% a 4% yn uwch, yn y drefn honno.

Mae **data poblogaeth gwartheg** wedi dangos bod cyfanswm y gwartheg o dan 30 mis oed ym Mhrydain yn 5.1 miliwn ar 01 Hydref 2022 – cynnydd o 1.5% ar y flwyddyn (*ffynhonnell: BCMS*).

Mae'r ffigurau'n awgrymu bod y cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y *tymor byr* (h.y., gwartheg bîff a gwrywod 12-30 mis oed) i fyny 3% o'i gymharu â'r flwyddyn. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau cynharach y byddai mwy o gyflenwad yn dod i'r farchnad yn ystod ail hanner eleni ac i mewn i 2023. Bydd cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y *tymor hwy* (h.y., gwartheg bîff a gwrywod godro 0-12 mis oed) yn debygol o sefydlogi i 2023 gan fod y niferoedd ar lawr gwlad 1% yn is na'r lefelau blwyddyn ynghynt. Mae **cofrestriadau lloi** ym Mhrydain Fawr yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi hefyd i lawr rhyw 1% ar y flwyddyn a fyddai'n cefnogi sefydlogi niferoedd y cyflenwad.

**Cyflenwad posibl yn y tymor hwy (0-12 mis): -1% b-a-f**

## MASNACH

**Mae allforion cig eidion o'r DU hyd yn hyn yn gryf: +30% b-a-f**

Dim ond hyd at fis Medi mae data masnach CThEM ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn dangos bod nifer yr allforion cig eidion o'r DU wedi gwella ers i'r fasnach gael ei hamharu gan COVID, ond eu bod yn dal i dueddu ychydig y tu ôl i gyfeintiau cyn Brexit. Roedd cyfanswm o 93,200 tunnell o gig eidion ffres/wedi'i rewi wedi'i **allforio** yn ystod y cyfnod 9 mis - cynnydd o bron 30% o'i gymharu â'r flwyddyn - oherwydd cynnydd yn nifer y llwythi i'r UE. Iwerddon, Ffrainc a'r Iseldiroedd fu'r prif dderbynwyr cyfeintiau ac maen nhw y tu ôl i'r cynnydd, tra bod cyfeintiau a anfonwyd i wledydd y tu allan i'r UE tua 36% y tu ôl i lefelau blwyddyn ynghynt, sef 13,650 tunnell. Rhagwelir y bydd y galw am gig eidion yn Tsieina yn tyfu (gyda phorc yn aros fel y prif brotein), gyda chyfeintiau sy'n cael eu hallforio i Tsieina hyd yn hyn eleni bron ddwbl ffigwr 2021.

Mae cig eidion sydd wedi **cael ei fewnforio** i'r DU yn ystod y cyfnod 9 mis yn gymharol sefydlog ar lefelau blwyddyn ynghynt, sef ychydig dros 170,000 tunnell fetrig. Ar hyn o bryd mae cyflenwadau Gwyddelig 11% y tu ôl i lefelau blwyddyn ynghynt, fodd bynnag, mae cyflenwadau cynyddol o'r Almaen a'r Iseldiroedd wedi gorbwyso colledion o Iwerddon. Lefelau cynhyrchu domestig yn y dyfodol, ynghyd â galw defnyddwyr, yw dau o'r prif ffactorau a fydd yn dylanwadu ar dueddiadau mewnforio.

## GALW

Yn ôl Kantar, mae cyfradd chwyddiant prisiau groser wedi arafu gyda'r chwyddiant 4 wythnos diweddaraf ar 14.6%. Er gwaethaf hyn, mae siopwyr yn parhau i fabwysiadu strategaethau ymdopi i liniaru costau (yn enwedig nawr yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig) gyda gwerthiant llinellau label eu hunain mewn manwerthu yn codi i'r entrychion. Mae'r galw am gig eidion ar y farchnad ddomestig wedi newid o ganlyniad. Mae data a ryddhawyd gan Kantar yn datgelu bod defnyddwyr wedi bod yn prynu mwy o friwgig mewn siopau ym Mhrydain Fawr nag erioed o'r blaen. Yn ystod y 12 wythnos hyd at 30 Hydref 2022, roedd gwerthiant briwgig yn cyfrif am 58% o gyfanswm cyfaint y cig eidion a werthwyd. Gan fod gwerthiannau briwgig fel arfer yn cyfrif am oddeutu 50-53% o'r gwerthiannau, mae hyn yn wahaniaeth nodedig. Mae'r gwariant ar friwgig yn unig wedi cynyddu 11% o'i gymharu â'r flwyddyn yn ystod y cyfnod diweddaraf, gyda chynnydd o 2% yn nifer y prynwyr. Mae'r cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr am friwgig eidion yn duedd bryderus i'r sector gan ei bod yn gynyddol anodd cynnal cydbwysedd carcasau.

**Mae cyfran y cig eidion sy'n cael ei werthu fel *briwgig* yn uchel**

*Wrth edrych i'r dyfodol, rhagwelir y bydd cynhyrchiant cig eidion yn yr Unol Daleithiau yn gostwng yn 2023 yn dilyn effeithiau sychder ar y cylched gwartheg. Yn dibynnu ar lefelau'r cynnyrch sydd ar gael ar y farchnad ddomestig; gall hyn ddarparu cymorth i allforion y DU. Mae'r chwyddiant parhaus yn golygu bod y gost o fwydo a phesgi stoc ar y fferm yn parhau i fod yn uchel, a fydd yn anochel yn parhau i roi pwysau ar y sector cig eidion ac yn dylanwadu ar y cyflenwad ar y farchnad. Bydd galw defnyddwyr a phatrymau siopa yn parhau i effeithio ar y sector cig eidion - gyda'r potensial i gig eidion herio twrci y Nadolig hwn oherwydd y pris a nifer o achosion o Ffliw'r Adar hyd yn hyn eleni.*

## GWARTHEG

### Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 10fed Rhagfyr

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **254.0c/kg**. Roedd hyn:

- -7.0c ar yr wythnos flaenorol,
- +13.9c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 203.4c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **439.7c/kg**. Roedd hyn:


- -1.9c ar yr wythnos flaenorol,
- 32.5c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 434.8c/kg (-2.0c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 417.8c/kg (-7.1c), a gwartheg difa ar 319.7c/kg (+1.2c).

### Trwybwn – Hydref 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 254,300 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 173,200 pen - i fyny 8% ar y flwyddyn.
  ➢ *bustych +7%, heffrod +8%, a theirw ifanc +15%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 340.9kg (-0.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 72,400 pen - cynnydd o 13% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 10fed Rhagfyr

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **227.6c/kg**. Roedd hyn:

- -7.9c ar yr wythnos flaenorol,
- -39.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 23.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 204.1c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£69.00/pen**. Roedd hyn:


- +£1.20 ar yr wythnos flaenorol,
- £11.40 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 552.2c/kg (+11.5c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Hydref 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.2 miliwn pen – i lawr 0.4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau ŵyn = 19.9kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 108,100 pen – cynnydd o 7% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 26 Tachwedd

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **205.3c/kg**. Roedd hyn:

- -0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- +56.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 51.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 154.0p/kg).

### Trwybwn – Hydref 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 945,600 pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 926,000 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.7kg (+0.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,600 pen – cynnydd o 53% ar y flwyddyn

